**Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin 2023**
**Perfformiad Theatrig o Sgript Bl.6 ac iau (Dysgwyr)**
**(2 - 4 mewn nifer)**

*Gellir newid rhyw ac enwau'r cymeriadau a'r dafodiaith. Pwysleisir mai props syml sydd eu hangen ar gyfer yr ymgom.*

*Mae Mr Huws yn yr ystafell athrawon (oddi ar y llwyfan) a'r plant ar y buarth yn cyfarch ei gilydd ben bore.*

Jên : Helo sut wyt ti, diwrnod olaf yr hanner tymor. Grêt.

Cadi : Haia, ti'n iawn? Wyt ti'n cael mynd i Llanymddyfri yr wythnos nesa'?

Jên : Ydw! Mae'r Eisteddfod yno ac rydyn ni'n cystadlu.

*Daw Sian i mewn ar ei baglau*

Cadi: Edrycha mae Sian yn dod

Jên : Helo, Sian? Be sy'n bod? Beth wyt ti wedi ei wneud?

Sian : Dw i wedi syrthio ac rydw i wedi brifo fy ffêr

Cadi : Sut wnest ti hynny?

Sian: Wrth ymarfer y ddawns wirion 'na. Dydw i ddim yn gallu mynd i'r Eisteddfod rŵan.

Jên : Mae'n well i ni fynd i ddweud wrth Mr Huws

*Y merched yn dechrau rhedeg i gyfeiriad y 'stafell athrawon*.

Sian: Ara' deg ferched, dydw i ddim yn gallu dod yn gyflym ar y baglau 'ma

*Mae'r dair/ tri yn mynd i chwilio am Mr. Huws. Mae o'n dod i'w cyfarfod ar y buarth.*

Jên : Mr Huws, Mr Huws, dydy Sian ddim yn gallu dod i'r 'steddfod be ydyn ni'n mynd i wneud?

Mr Huws: Beth sy'n bod Sian?

*Mae Jên yn gwneud môr a mynydd o'r digwyddiad*

Jên : Mae hi wedi syrthio ac wedi torri ei choes, mae hi wedi bod yn yr ysbyty. Mae o'n *siriys* syr.

Sian: Dw i wedi syrthio wrth ymarfer y ddawns ac rydw i wedi brifo fy ffêr.

Jên : O Mr Huws be ydan ni'n mynd i wneud?

Mr Huws: Dim byd.

Jên : Dim byd?! Dydyn ni ddim yn mynd i'r 'steddfod? Ond Mr Huws....

Mr Huws: Na, na rydyn ni'n mynd i'r 'steddfod ond ti Cadi Haf fydd yn gwneud rhan Sian.

Cadi : Be? Fi yn canu ar y llwyfan ! *No we*!.

Jên : Ond mi fyddi di yn grêt Cadi. Ti'n canu fel aderyn.

Sian : Ydy, fel bran yn crawcian!

Jên : Na rwyt ti fel eos.

Sian: Mr Huws, ydach chi'n meddwl ga' i ddod i'r Eisteddfod i wylio'r grŵp?

Cadi: O plîs Mr Huws, fydd Sian yn ddim trafferth. Na fyddi Sian!

Mr Huws: Iawn. Wel dyna ni, popeth yn iawn. Ymarfer fel arfer amser chwarae ac amser cinio.....

Y Merched: Ac ar ôl ysgol, 'den ni'n gwybod.

*Mr Huws yn cerdded i ffwrdd yn ôl i mewn i'r ysgol ....*

Cadi : Dw i ddim yn gallu dawnsio Jên

Jên : Wrth gwrs ti'n gallu

Cadi : Dw i ddim yn siŵr 'sti. Be dw i'n gorfod wneud?

Sian: Wel ti'n camu un, dau, tri ac wedyn hop. Dangos iddi Jên
(*Jên yn gwneud y symudiad*)

Cadi: O mae hwn yn edrych yn anodd.

Sian: Na, tydi o ddim, unwaith eto Jên
*(Jên yn gwneud y symudiad eto)*

Cadi: Tyrd i mi drio 'ta
(Jên yn cydio yn llaw Cadi ac yn arwain)

Jên: Un,...... dau,...... tri,..... hop
*(Cadi yn methu ar yr hop)*

Cadi: O ti'n gweld dydw i ddim yn gallu wneud o.

Sian: Tria eto

Jên: Un,....... dau,....... tri......... hop

Cadi : Dyna well.

Jên : Eto, Cadi ar dy ben dy hun y tro yma

Cadi : Un,............ dau,.........tri,.......hop

(Cadi yn gwneud y symudiad gan gyflymu fel mae hi'n mynd yn fwy hyderus)

Jên : Wyt ti'n gallu neidio'n uchel?

Cadi : Ydw, edrycha.

Sian a Jên : Da iawn ti. Gwych Cadi

Cadi : Be di'r geiriau dwi'n ganu?

*(Gall Cadi a Jên barhau i ddawnsio tra'n mynd trwy'r bennill. Daw Mr Huws i mewn yn dawel a gwylio'r rhialtwch)*

Jên: Hwb dene fo.

Cadi: Hwb dene fo?

Sian: A chynffon buwch a chynffon llo,

Cadi: A chynffon buwch a chynffon llo,

Jên A chynffon Rhisiart Parri'r go,

Cadi: A chynffon Rhisiart Parri'r go,

*(Sian yn ymgolli yn y ddawns ac yn taflu ei baglau ac yn dechrau dawnsio gyda nhw)*

Sian a Jên Hwb dene fo.

Cadi: Hwb dene fo wir, pa fath o gân ydi hon.

Jên Sian a Mr Huws: Dy gân di – Cadi Ha! – Ha ha ha ha!

*[Mr Huws, Cadi a Jên yn sylweddoli bod Sian wedi dweud celwydd ac yn ymateb gyda'i gilydd gan weiddi]*

*Mr Huws, Cadi a Jên* *Siân!!*

**Y DIWEDD**